# Canllaw - E-Ddysgu f2.4

Canllaw – E-Ddysgu

| **Cymeradwywyd y canllaw gan** | **Dyddiad cymeradwyo** | **Dyddiad gweithredu** | **Perchennog y canllaw** | **Dyddiad adolygu** |
|---|---|---|---|---|
| Andrea Malam | 31.08.17 | 31.08.17 | LH | 31.08.20 |

Cyn cysylltu â’r Adran Adnoddau Dynol ynghylch cynnwys y polisi hwn, argymhellir i chi gyfeirio at y fersiwn diweddaraf ar y fewnrwyd a’r canllawiau perthnasol.

Fel pob dogfen ar y fewnrwyd, mae’r polisi yn amodol ar adolygiad rheolaidd oherwydd newidiadau deddfwriaeth a pholisi. Mae'r fersiynau diweddaraf o holl ddogfennau Adnoddau Dynol i’w gweld ar dudalennau Adnoddau Dynol

| **Rhif y fersiwn** | **Dyddiad cymeradwyo** | **Cymeradwywyd gan** | **Diwygio** |
|---|---|---|---|
| f1.0 | 31.08.17 | Andrea Malam | Canllaw Newydd |
| f1.2 | 28.02.18 | Llinos McMullin | Gwelliannau i logio ymlaen ar y broses |
| f2.0 | 25.04.18 | Andrea Malam | Ail-fformatio |
| f2.1 | 01.04.19 | Llinos Howatson | Newidiadau i sgrinluniau ar gyfer safle E-Ddysgu |
| f2.2 | 10.12.21 | Llinos Howatson | Newidiadau i sgrinluniau a thestun ar gyfer safle newydd E-Ddysgu |
| F2.3 | 01.08.22 | Llinos Howatson | Newidiadau i sgrinluniau a thestun ar gyfer safle newydd E-Ddysgu |
| F2.4 | 12.09.23 | Laura Temple | Newidiadau i sgrinluniau a thestun ar gyfer safle newydd E-Ddysgu |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Croeso i ganllaw i ddefnyddwyr ar gyfer e-ddysgu Sir Ddinbych. Nod y llyfryn hwn yw rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr am y safle e-ddysgu newydd sydd yn brosiect cydweithredol ar draws y 22 awdurdod yng Nghymru ynghyd â gwasanaethau Cyhoeddus ehangach ac sy'n cael ei gynnal gan GIG. Drwy gydweithio, gall sefydliadau arbed arian ac mae staff yn elwa o gael mynediad at ddeunydd e-ddysgu yn ôl yr angen.

## Beth yw E-Ddysgu?

E-Ddysgu yw unrhyw ffurf o ddysgu sy'n cael ei gynnal trwy gyfrwng cyfryngau electronig, ar y Rhyngrwyd fel rheol. Gall hyn fod ar fideo ar YouTube, darlithoedd sy'n cael eu ffrydio ar wefannau megis Ted.com, rhaglenni teledu neu ddysgu Modiwlaidd.

## Manteision E-Ddysgu


Mae'n gost effeithiol ac yn arbed arian, trwy leihau'r amser rydych chi'n ei dreulio y tu allan i'r swyddfa, mae'n cael gwared ar gostau teithio a'r ffaith nad oes angen argraffu deunyddiau, mae dysgu ar-lein yn eich helpu i arbed arian ac yn cynyddu cynhyrchiant yn y gweithle.

Gallwch ddysgu bedair awr ar hugain y dydd, yn unrhyw le, pan fo'n gyfleus i chi, ar eich cyflymder chi, a lle bynnag y dewiswch chi. Caiff nifer o gyrsiau wyneb i wyneb eu cynnal yn ystod oriau gwaith arferol yn unig. Trwy adael i staff gwblhau'r cwrs ym mhle a phryd y maent yn dymuno, gallwch sicrhau fod amhariadau i amserlenni gwaith prysur yn prinhau.
Mae'n golygu bod tracio cynnydd y cwrs yn hawdd. Mae pob cwrs yn cofnodi defnyddwyr sydd yn rhyngweithio drwy'r safle, a gellir adrodd yn ôl ar hyn.

## Defnyddio'r safle


Er mwyn cael mynediad i'r wefan gall defnyddwyr fynd i'r safle drwy Linc neu drwy deipio https://learning.nhs.wales/ i borwr gwe, gellwch gael mynediad drwy unrhyw gyfrifiadur, tabled neu ddyfais ffôn symudol heb orfod defnyddio CAG neu'r fewnrwyd.

Os defynddir y linc http://learning.wales.nhs.uk/login/, fe welwch y dudalen isod. Teipiwch eich enw defnyddiwr, sef yr hyn rydych yn ei ddefnyddio fel arfer i fewngofnodi, e.e. johe8513, llythrennau bach. Hwn fydd 3 llythyren gyntaf eich enw ac yna eich rhif cyflog. Eich cyfrinair fydd **Denbighshire1%** gydag **D** fawr. Cliciwch ar y botwm mewngofnodi coch ar ochr dde uchaf eich sgrin.





**Os ydych chi'n cael problemau gyda'ch cyfrinair rydych chi'n gallu ailosod eich cyfrinair eich hun, lle bydd e-bost yn cael ei anfon atoch (fodd bynnag mae'n rhaid i'ch cyfeiriad e-bost fod yn gyfredol). Gallwch hefyd ddefnyddio'r swyddogaeth sgwrsio ar waelod y dudalen neu ffonio Adnoddau Dynol ar 01824 706200.**


Nawr fe welwch y dudalen isod, a fydd rhaid dewis Awdurdoau Lleol, a dewisiwch Sir Ddinbych.




Cliciwch Awdurdodau Lleol ac yna Sir Ddinbych



Dewiswch a ydych am fynd i mewn i'r safle yn Gymraeg neu Saesneg.






Dewisiwch Cyflogeion, a nawr gallwch gael mynediad at y cyrsiau sydd ar gael i chi o dan wahanol gategorïau.


Os gofynnir i chi deipio'r cod cofrestru, defnyddiwch Denb106%. Dim ond ar gyfer rhai modiwlau

-


Dewisiwch Cyflogeion





Dysgu@Cymru
Learning@Wales
Home
Fy hafan
Cysylltwch â Ni
NHS
Local Authorities
Universities
Welsh Government
Finance Academy
Cyrsiau › Awdurdodau lleol › Awdurdod Lleol Sir Ddinbych › Cymraeg › Cyflogeion
Categori
More
Awdurdodau lleol / Awdurdod Lleol Sir Ddinbych / Cymraeg / Cyflogeion
Chwilio'r cyrsiau
Denbighshire Tudalen Gartref y Cyngor
Modiwlau Gorfodol
Modiwlau Datblygu ar gyfer Rheolwyr
Modiwlau Dewisiol
Ehangu'r cyfan
Modiwlau Gorfodol
Modiwlau Datblygu ar gyfer Rheolwyr
Modiwlau Dewisiol
Help



Dysgu@Cymru
Learning@Wales
Home
Fy hafan
Cysylltwch â Ni
NHS
Local Authorities
Universities
Welsh Government
Finance Academy
Cyrsiau › Awdurdodau lleol › Awdurdod Lleol Sir Ddinbych › Cymraeg › Cyflogeion › Modiwlau Gorfodol
Categori
More
Awdurdodau lleol / Awdurdod Lleol Sir Ddinbych / Cymraeg / Cyflogeion / Modiwlau Gorfodol
Chwilio'r cyrsiau
Denbighshire Tudalen Gartref y Cyngor
Yn ôl Tudalen
Ymsefydlu Corfforaethol
Côd Ymddygiad
Trais yn erbyn Menywod
Cydraddoldeb
Diogelu Grŵp A
Diogelu Data
Chwythu'r Chwiban
Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg
Ymwybyddiaeth i Ofalwyr
Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl
GIG CYMRU NHS WALES
Gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru
Working in partnership with Welsh Government
Contact Us
01443 848 848
elearning@wales.nhs.uk
Help

Unwaith y byddwch wedi dewis eich categori bydd rhestr o'r modiwlau yn ymddangos fel uchod. Cliciwch ar yr un yr ydych am ei gwblhau.




Pan fyddwch wedi cwblhau modiwl E-Ddysgu byddwch yn gweld y sgrin ganlynol. Bydd clicio ‘Exit Activity’ yn mynd â chi'n ôl i dudalen y modiwl a bydd yn sicrhau bod eich cwblhauwedi'i safio.




Unwaith y byddwch wedi cwblhau eich dysgu'n llwyddiannus, dylid gweld ‘Done’ mewn gwyrdd a bydd modd lawrlwytho eich tystysgrif drwy glicio arno.

I ddychwelyd i'r rhestr o fodiwlau neu ddychwelyd i'r hafan, dewiswch yr opsiwn ar y bar offer glas o Awdurdodau Lleol ac wedyn Sir Ddinbych.

Os bydd gennych unrhyw broblem, cysylltwch â Adnoddau Dynol, cyswlltad@sirddinbych.gov.uk neu ffoniwch 01824 706200.

**Ailosod Cyfrinair**

Os oes angen i chi ailosod eich cyfrinair gallwch glicio ar y ddolen a anghofiwyd ar y dudalen mewngofnodi a byddwch yn cael cyfrinair newydd drwy e-bost. Bydd hyn ar gael i ddefnyddwyr sydd wedi'u sefydlu gyda chyfeiriadau e-bost personol yn unig. Os ydych chi'n ansicr, cysylltwch â HR Direct. Gall problemau technegol hefyd gael eu hadrodd i'r GIG drwy'r opsiwn sgwrs fyw ar ochr dde isaf y sgrin.